OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 456 (Cy.47)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol, Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*3 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - -	*26 Mawrth 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 61, 66, 125 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol, Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 26 Mawrth 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Rheoliadau Ffioedd Deintyddol" ("*Dental Charges Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**2**);

ystyr "Rheoliadau GDS" ("*GDS Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(**3**); ac

ystyr "Rheoliadau PDS" ("*PDS Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006(**4**).

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2006/491 (Cy.60).
(**3**) O.S. 2006/490 (Cy.59).
(**4**) O.S. 2006/489 (Cy.58).